

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR GWAITH 31 GORFFENNAF 2018

Presennol

Cadeirydd – Cyng C Larsen

A Hopcyn, R Thomas, W T Owen, I C Thomas

Cyngor Gwynedd Mr Ken Jones

1. Ymddiheuriadau

Cyng D L Jones , Cyng C Williams, Cyng E R Hughes , Cyng W R Owen

2. Datgan Buddiant Personol

Cyng J W Parry (oherwydd ei fod yn aelod o clwb criced sydd yn defnyddio'r safle – ac felly ddim yn mynychu'r cyfarfod)

Clerc yn nodi gan nad ydi yn aelod o'r clwb a bod ei mab hi ddim yn chwarae eleni bod y swyddog cyfreithiol wedi nodi bod hi yn iawn i gymryd rhan gan mai y clerc ydi swyddog priodol y Cyngor ac i adolygu'r sefyllfa fel mae trafodaethau yn datblygu

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

4. Parc Coed Helen

Eglurodd Mr Ken Jones bod cwmni rheoli hamdden newydd wedi cael ei sefydlu yn Cyngor Gwynedd, fydd yn edrych ar ôl y prif safleoedd Hamdden o Mis Tachwedd ond yn wahanol i Cartrefi Cymunedol fydd gan Cyngor Gwynedd dal rywfaint o reolaeth .

Pethau fel caeau pêl-droed a parciau ddim yn dod o dan rheolaeth y corff newydd ac felly mae Cyngor Gwynedd yn troi at Cyngorau Tref a chymuned gyntaf i weld os oes diddordeb . Yn y tymor byr fydd yn gorfod mynd o dan adran gwahanol o Cyngor Gwynedd, ond gan na fydd arian yn flaenoriaeth fydd y cyflwr yn debygol o ddirywio.

Cafwyd trafodaeth agored iawn ymysg y sawl oedd yn bresennol.

Mae Cyngor Gwynedd yn wynebu fwy o doriadau a'r tebygrwydd ydi mai adrannau fel hyn fydd yn gorfod derbyn y toriadau yn hytrach na Iechyd ac Addysg.

Nodwyd nad oedd Cyngor Gwynedd yn rhagweld fyddai safle yn cau ond ddim yn flaenoriaeth o gwbl felly dirywio dros amser.

Nodwyd bod y tenant yn fodlon ymddeol , ond yn dymuno aros yn y tŷ , neu o leiaf tŷ yn rhywle .

Ar hyn o bryd yn derbyn cyflog isel iawn (llai na £5200) ac yn talu rent o £3600 ac yn talu biliau'r tŷ heb law am y llinell ffon .

Wrth fynd trwy'r amcangyfrifon nodwyd bod cyflog Steven Jones wedi ei glustnodi yn erbyn y safle er nad ydi yn gweithio ar y safle felly ellir distyru gweddill y swm cyflogau.

Ffigwr cynnal a chadw cyffredinol sef £1821.22 a £1000 yn wariant ar yr adeiladau

Ffigwr cynnal a Chadw amgylcheddol - £14814.90 ydi am dorri coed, torri gwair, trwsio ffens – ystyried bod modd neud hyn yn rhatach

Costau trydan yn £930 yn ei amcan gyfrifon ond wedi talu dros £3600 a'r eglurhad oedd bod prisiau trydan wedi codi .

Ffigyrau dwr wedi amcan gyfrif £50 ond gwariant o dros £1000 felly tybir bod yr amcangyfrifon yn pell ohoni

Cafwyd eglurhad nad oedd modd iddynt newid y llinell amcangyfrif am ryw reswm . Mae na ddau swyddog yn edrych i mewn i gostau'r safle ,ond tydi'r gwybodaeth yno ddim ar gael eto .

Offer chwarae y parc mewn cyflwr da iawn ar hyn o bryd a tybir bod ryw 5 mlynedd da ar ôl cyn bod angen edrych ar hyn. Nodwyd bod yr adran perthnasol yn fodlon trosglwyddo ased yno ynghyd ar parc ac yn fodlon hyfforddi swyddogion priodol i neud yr archwiliadau wythnosol fyddai ei angen ar gyfer yswiriant.

Doedd dim costau penodol yswiriant lawr ar gyfer y parc gan ei fod yn dod o dan prif polisi'r Cyngor Sir , ond yn amlwg y byddai yn amharu yn sylweddol ar ein polisi ni .

Nododd y clerc y byddai rhaid cael rhywun yn y tŷ gan bod yr heddlu yn derbyn nifer o alwadau o'r safle gan y gofalwr . Yn ogystal tynnwyd sylw gan y clerc bod mwy nag un person yn gwneud gwahanol elfennau o'r gwaith ar hyn o bryd ac fyddai rhaid i Cyngor Tref ystyried hyn.

Nodwyd bod y sefyllfa wedi gwella yn sylweddol ers gosod CCTV ond dal nifer o ymweliadau gan yr heddlu .

Incwm – ar hyn o bryd yn derbyn arian gan y clwb criced, clwb pêl-droed, academi pêl-droed, a tîm pêl-droed Waunfawr . Mae corff “STRI” yn nodi bod y cae yno mewn cyflwr da gan bod dim llawer o ddefnydd arno .

Pêl droed yn llogi fel mae nhw angen y cae , y clwb criced mewn cytundeb ac felly angen ystyried yr elfen gweinyddol i hyn wrth parhau trafodaethau.

Cydnabyddir bod nifer o ffyrdd ellir codi fwy o incwm ar y safle (e.e codi am barcio) , ac mi fyddai hyn yn elfen angen ystyriaeth pellach .

Teimlir y byddai yn ddiddorol gweld dros gyfnod o amser faint o geir sydd yn parcio yno, a faint sydd ddim yn defnyddio'r safle , gan bod nifer yn ymwybodol bod sawl yn parcio yno trwy dydd am ei fod yn gyfleus i ganol dre

Mi fuasai costau inni oddeutu £30,000 y flwyddyn felly yn cymharol a goleuadau Nadolig . Mae modd gofyn wrth Cyngor Gwynedd ystyried rhoi grant tuag at costau rhedeg y safle mewn unrhyw gais (efallai dros gyfnod o 3 blynedd efo'r swm yn gostwng yn flynyddol)

Gan bod y corff newydd yn cychwyn ym Mis Tachwedd fyddai yn amhosib inni gael unrhyw drafodaethau pendant cyn hynny , a gan bod ein amcangyfrifon ni am y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu greu Mis Hydref – y realiti ydi na fysa ni mewn unrhyw sefyllfa i edrych arno o ddi-fri tan amcangyfrifon yn Hydref 2019 ar gyfer flwyddyn ariannol 2020

.

Argymhelliad y pwyllgor

Gan ystyried y gofynion amser a bod hi yn amhosib gwneud dim ar gyfer flwyddyn nesaf . Cytuno mewn egwyddor , a parhau i gael trafodaethau . Nododd y clerc y fydda ni angen neud ymgynghoriad cyhoeddus ac felly fyddai angen gwneud hyn cyn diwedd haf 2019 er mwyn ystyried y canlyniadau yn yr amcangyfrifon yn 2019 .

Gorffennodd y cyfarfod am 6.30

Arwyddwyd Dyddiad